



**CPS**

**Gwasanaeth Erlyn y Goron  
Gwasanaeth i Deuluoedd mewn Profedigaeth**

## Cynnwys

Gwasanaeth y CPS i Deuluoedd mewn Profedigaeth.....	3
Penodi Swyddog Cyswilt Teuluol yr heddlu .....	3
Pa fath o achos sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth? .....	3
Pryd fydd yr achos yn gymwys? .....	3

### Y Cyfarfodydd

Pryd fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal? .....	4
A oes rhaid i mi fynd i'r cyfarfodydd? .....	4
Pwy fydd yn mynychu'r cyfarfodydd? .....	4
Ble fydd y cyfarfodydd yn digwydd? .....	4

### Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS)

Beth yw VPS? .....	5
Oes rhaid i mi wneud VPS? .....	5
Ydw i'n dal i allu cael cyfarfod hyd yn oed os nad ydw i eisiau gwneud VPS? .....	5
Pryd ydw i'n gallu gwneud VPS? .....	5
Pwy sy'n gallu gwneud VPS? .....	5
Pwy fydd yn gweld y VPS? .....	5

### Gweithdrefn y Llys

Beth fydd yn digwydd i'r VPS? .....	6
Pryd fydd y llys yn clywed y VPS? .....	6
Beth sy'n digwydd os ceir y diffynnydd yn ddiuog? .....	6
Pa gefnogaeth fydd gennyf yn y llys? .....	6

<b>Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth? .....</b>	<b>6</b>
--	----------

**Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.**

**Am wybodaeth ar Wasanaeth Erllyn y Goron, ac i weld a lawrlwytho copi electronig o'r ddogfen hon, ewch i'n gwefan:**

**[www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)**

**Cyfarwyddiaeth Polisi'r CPS  
Gorffennaf 2015  
© Hawlfraint y Goron**

## **Gwasanaeth y CPS i Deuluoedd mewn Profedigaeth**

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut a phryd ydym ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn gallu cwrdd â chi a'ch teulu i esbonio rhai o'r gweithdrefnau yn ymwneud ag erlyniad eich achos. Gall hyn gynnwys, os dymunwch, wneud datganiad i'r llys ynglŷn â sut mae marwolaeth yr aelod o'ch teulu wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu. Gelwir y datganiad hwn yn ddatganiad personol y dioddefydd (VPS).

## **Penodi Swyddog Cyswllt Teuluol yr heddlu**

Dylid penodi Swyddog Cyswllt Teuluol yr heddlu i chi ar ddechrau'r ymchwiliad i farwolaeth yr aelod o'ch teulu. Bydd y Swyddog Cyswllt Teuluol yn esbonio'r gwasanaeth a gynigir gan y CPS i chi a'ch teulu. Byddwn yn trefnu unrhyw gyfarfod gyda chi trwy'ch Swyddog Cyswllt Teuluol.

## **Pa fath o achos sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth?**

Cynigir cyfarfodydd i chi a'ch teulu gyda'r CPS ble mae'r dioddefydd yn aelod o'ch teulu ac os yw'r sawl a amheuir yn cael ei gyhuddo o un o'r troseddau canlynol:

- llofruddiaeth;
- dynladdiad;
- dynladdiad corfforaethol;
- dynladdiad teuluol;
- achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus;
- achosi marwolaeth trwy yrru diofal tra bo dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiotal neu anystyriol;
- achosi marwolaeth trwy yrru tra bo heb drwydded, wedi gwahardd neu heb yswiriant;
- cymryd cerbyd gwaethygedig ble achosir marwolaeth.

## **Pryd fydd yr achos yn gymwys?**

Bydd yr heddlu yn casglu'r holl dystiolaeth ac yna'n pasio'r dystiolaeth mewn ffeil i gyfreithiwr y CPS ei adolygu. Gelwir ef neu hi yn erlynydd.

Weithiau, ac yn fwy penodol mewn achosion mawr neu gymhleth, ble mae cryn dipyn o dystiolaeth, gall hyn gymryd nifer o wythnosau i adolygu, oherwydd bydd yr erlynydd yn aml angen gofyn i'r heddlu gasglu mwy o dystiolaeth.

Mae'r achos yn gymwys os, yn dilyn adolygiad yr erlynydd, y bydd y sawl a amheuir yn cael ei gyhuddo o un o'r troseddau uchod ble mae'r dioddefydd yn aelod o'ch teulu (mae teulu yn cynnwys partneriaid (yn cynnwys partneriaid un rhyw)).

## Y Cyfarfodydd

### Pryd fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal?

Cynigir cyfarfodydd i chi a'ch teulu gyda'r CPS ar gamau allweddol o'r broses erlyn.

Bydd y CPS yn cynnig cyfarfod i chi a'ch teulu gyda'r erlynydd yn fuan cyn neu wedi i'r sawl a amheuir gael ei gyhuddo neu ei chyhuddo er mwyn esbonio rôl y CPS, y cyhuddiadau y mae'r erlyniad yn eu cyflwyno fel achos, sut fydd yr achos yn cael ei drin gennym a beth i'w ddisgwyl ym mhob gwrandawriad llys. Bydd yr erlynydd yn esbonio'r cynllun VPS.

Byddwch chi a'ch teulu yn cael cyfle i gwrdd ag erlynydd y CPS neu eiriolwr achos, os yw ef neu hi yn rhywun gwahanol.

Os ydym wedi gwneud newid sylweddol i neu wedi gollwng cyhuddiad, byddwn yn cynnig cyfarfod i chi i esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniad.

Yn dilyn euogfarn byddwn yn cwrdd â chi i sicrhau bod VPS wedi ei baratoi ac/neu i gadarnhau ei fod yn gyfredol (gweler yn hwyrach). Bydd y cyfarfod hwn fel arfer yn digwydd yn y llys. Byddwn hefyd yn cwrdd â chi yn neu'n dilyn gwrandawriad y ddedfryd i esbonio'r ddedfryd.

Byddwn yn cynnig eich cyfarfod mewn achosion sy'n arwain at ryddfarn neu euogfarn ar gyhuddiad llai difrifol i ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'ch achos.

Byddwn hefyd yn cynnig eich cyfarfod os yw diffynnydd wedi derbyn caniatâd i apelio i'r Llys Apêl yn erbyn y ddedfryd neu euogfarn i esbonio natur yr apêl a phroses y llys i chi.

Yn anaml iawn, mae'r heddlu yn cyfeirio achosion yn ôl i'r CPS wedi rhyddfarn os oes tystiolaeth newydd a chymhellol wedi dod i law (achosion 'erlyniad dwbl'). Yn yr achosion hyn, byddwn yn cynnig eich cyfarfod i esbonio ein penderfyniad.

Yn y cyfarfodydd hyn, bydd yr erlynydd yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r achos, er yn ddibynnol ar ba gam mae pethau, efallai na fydd ef neu hi yn gallu trafod manylion y dystiolaeth.

### A oes rhaid i mi fynd i'r cyfarfodydd?

Na. Mae'r cyfarfodydd yn gwbl ddewisol a does dim rhaid i chi dderbyn y cynnig o gyfarfod os nad ydych eisiau un. Hefyd, hyd yn oed os byddwch yn gwrthod i ddechrau, gallwch newid eich meddwl yn hwyrach. Os felly, dylech roi gwybod i'ch Swyddog Cyswllt Teuluol a byddant yn cysylltu â'r erlynydd i drefnu cyfarfod.

### Pwy fydd yn mynychu'r cyfarfodydd?

Bydd y CPS a'r heddlu yn mynychu'r cyfarfodydd. Efallai y bydd eiriolwr yr achos, os yw'n rhywun gwahanol i'r erlynydd, hefyd yn bresennol yn ddibynnol ar y rheswm dros gynnal y cyfarfod.

### Ble fydd y cyfarfodydd yn digwydd?

Cynhelir y cyfarfod naill ai yn y swyddfa CPS ble mae'r erlynydd yn gweithio neu mewn gorsaf heddlu leol os yw ar gael. Os yw hyn yn anghyfleus i chi, dylech roi gwybod i'r Swyddog Cyswllt Teuluol er mwyn i'r erlynydd allu ystyried a ellir gwneud trefniadau amgen.

# **Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS)**

## **Beth yw VPS?**

Y VPS yw'ch cyfle chi i ddweud wrth y llys, yn eich geiriau'ch hun, sut mae marwolaeth yr aelod o'ch teulu wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu.

## **Oes rhaid i mi wneud VPS?**

Na. Efallai y byddwch yn penderfynu nad ydych eisiau gwneud VPS. Gall eich Swyddog Cyswllt Teuluol, cyswllt cymorth i ddioddefwyr lleol neu grwpiau cefnogaeth lleol eraill eich helpu i ddeall y dewisiadau sydd gennych, er mwyn i chi allu penderfynu beth sydd orau i chi a'ch teulu.

## **Ydw i'n dal i allu cael cyfarfod hyd yn oed os nad ydw i eisiau gwneud VPS?**

Ydych. Dim ond rhan o'r gwasanaeth yw trafod y VPS. Hyd yn oed os nad ydych eisiau gwneud VPS, efallai yr hoffech wybod beth sy'n digwydd yn yr achos neu y bydd gennych gwestiynau yr hoffech eu gofyn.

## **Pryd ydw i'n gallu gwneud VPS?**

Gallwch wneud VPS os yw'r dioddefydd yn aelod o'ch teulu. Mae gennych chi hawl i ddweud a ydych chi eisiau i'ch VPS gael ei ddarllen yn uchel yn y llys os ceir y diffynnydd yn euog. Mae gennych hefyd hawl i ddweud a hoffech ddarllen eich VPS yn uchel neu gael rhywun i'w ddarllen ar eich rhan (fel arfer gan erlynydd y CPS neu eiriolwr yr achos).

Efallai y byddwch chi neu aelodau eraill o'r teulu eisoes wedi gwneud VPS cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal. Fodd bynnag, os dymunwch, gallech chi ac aelodau eraill eich teulu wneud VPS arall os ydych yn credu nad yw'r datganiad cyntaf yn cynnwys popeth yr oeddech eisiau ei ddweud, neu os yw'ch teimladau ynglŷn â'r drosedd wedi newid ers i chi wneud y datganiad cyntaf.

## **Pwy sy'n gallu gwneud VPS?**

Caiff aelodau agos o deulu'r sawl a fu farw wneud VPS. Mae hyn fel arfer yn golygu rhieni, gwarchodwyr, priod, partneriaid sifil, partneriaid a phlant y dioddefydd.

## **Pwy fydd yn gweld y VPS?**

Os byddwch yn gwneud VPS, bydd yn dod yn rhan o bapurau'r achos. Golyga hyn y bydd pawb sy'n gysylltiedig â'ch achos yn ei weld, er enghraifft, yr heddlu, y CPS, yr amddiffyn, a'r ynadon a barnwyr yn y llysoedd.

## Gweithdrefn y Llys

### Beth fydd yn digwydd i'r VPS?

Os yw'r diffynnydd yn cael ei ddedfrydu (yn pledio'n euog neu'n cael ei ganfod yn euog gan yr ynadon neu reithgor), bydd yr erlynydd neu eiriolydd yr achos, os yw ef neu hi yn rhywun gwahanol, yn siarad â chi i gadarnhau cynnwys eich VPS. Fel arfer byddant yn gwneud hyn yn y llys yn syth wedi cael y diffynnydd yn euog.

Os hoffech addasu eich VPS yn ystod y cam hwn, bydd eich Swyddog Cyswllt Teuluol neu swyddog yr heddlu arall sy'n bresennol gyda chi yn y llys yn cymryd datganiad atodol i'w roi i'r llys a'r amddiffyn.

Bydd y VPS yn cael ei ddangos i'r ynadon neu'r barnwr, yr amddiffyn a'r erlyniad cyn dedfrydu'r diffynnydd.

Mae'n rhaid i'r llys ddedfrydu yn ôl ffeithiau'r achos, gan ystyried unrhyw ffactorau gwaethgol a lliniarol a chanllawiau cyfreithiol. (Mae ffactor waethgol yn nodwedd o'r achos sy'n golygu y gallai dedfryd uwch fod yn briodol: mae ffactor liniarol yn un sy'n golygu y gallai dedfryd is fod yn briodol.)

### Pryd fydd y llys yn clywed y VPS?

Os ydych wedi ysgrifennu VPS, bydd yr ynadon neu'r barnwr yn ei ddarllen cyn y gwrandawriad.

Bydd y llys yn clywed eich VPS wedi cael y diffynnydd yn euog, ond cyn eu dedfrydu. Y llys fydd yn penderfynu p'un ai a pha adrannau o'r VPS ddylid eu darllen yn uchel a gan bwy gan ystyried eich barnau. Os byddwch yn dewis peidio darllen eich VPS yn uchel eich hun, fel arfer bydd erlynydd y CPS neu eiriolwr achos yn gwneud hynny ar eich rhan.

### Beth sy'n digwydd os ceir y diffynnydd yn ddieuog?

Ni fydd y barnwr yn gallu ystyried y VPS os na cheir y diffynnydd yn euog oherwydd ni fydd gwrandawriad dedfrydu.

### Pa gefnogaeth fydd gennyf yn y llys?

Bydd erlynydd y CPS yn ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â beth sy'n digwydd ar ddiwrnod y gwrandawriad dedfrydu.

Mae staff y llys a'r Gwasanaeth Tystion hefyd yno i'ch helpu. Gall staff Gwasanaeth Tystion drefnu i chi ymweld â'r llys cyn yr achos ac/neu wrandawriad dedfrydu, er mwyn i chi allu dysgu mwy am weithdrefnau'r llys. Ar y diwrnod, gallant roi lle tawel i chi aros a threfnu i rywun ddod i'r llys gyda chi a chymorth ymarferol arall.

## Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth?

Gall eich Swyddog Cyswllt Teuluol roi manylion eich grŵp cymorth i ddiodefwyr lleol a grwpiau cefnogaeth eraill yn eich ardal i chi. Gallant hefyd eich helpu i drefnu siarad ag un o'r grwpiau hyn os ydych eisiau trafod y gwasanaeth sydd ar gael.